

## Digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol Menywod

### Abertawe

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod eleni mynychais ran o fenter newydd gan Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe, ac a noddwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a hynny ym moethusrwydd Gwesty Morgans, Abertawe. Mwynheais y sesiwn ar 'Arloeswyr y Gorffennol' yn fawr iawn. Roedd Dr Kirsti Bohata yn trafod Amy Dillwyn fel diwydianwraig ac arloeswraig, Peter Lord yn egluro cyfraniad aruthrol Winifred Coombe Tennant i fywyd diwyllianol Cymru a'r Athro Emeritws Gareth Ffowc Roberts yn ein goleuo ar yrfa ryfeddol y mathemategydd disglair Mary Wynne Warner. Roedd dwy o'r darlithoedd hyn yn Gymraeg ac roedd cyfieithu ar y pryd effeithiol iawn ar gyfer y di-gymraeg. Yn y sesiwn arall a fynychais roedd panel o fenywod ifanc yn trafod Merched a Menter dan gadeiryddiaeth ddeallus Elin Rhys, Telesgop. Cyfreithwraig â'i chwmmi ei hun yw Bethan Darwin; mae Heledd Bebb yn darlithio ar Entrepreneuriaeth ym Mhrifysgol Morgannwg a Dr Anwen Rees yn athletwraig o fri ac yn arbenigo ar faterion megis gordewdra. Yr hyn oedd yn braf am y sesiwn oedd bod y merched ifanc oedd yn bresennol yn barod iawn i ofyn cwestiynau a herio'r siaradwyr. Diolch i Non Vaughan Williams o Academi Hywel Teifi am fentro i'r maes hwn ac edrychaf ymlaen at fynychu digwyddiad cyffelyb ar ei hyd y flwyddyn nesaf.

Catrin Stevens



### Y Barri

Cynhaliwyd dathliad blynyddol y Barri yn Neuadd Goffa'r Barri yng nghwmni nifer o westai a gawsai wahoddiad. Roedd llawer o fudiadau menywod wedi'u cynrychioli, ac roedd ystod o siaradwyr, gan gynnwys un o ferched mwyaf adnabyddus y dref, Deirdre Beddoe, a Jane Hutt.

Uchafbwynt y digwyddiad oedd lansio Llwybr Menywod y Barri, taith gerdded o gwmpas y dref yn dathlu menywod oedd wedi gwneud cyfraniad nodedig i'w bywyd cyhoeddus. Ymhlith y menywod a nodir, mae rhai byd-enwog fel y gyfansoddwraig Grace Williams (1906 - 77) a rhai lleol, fel y blismones Elsie Joan Baldwin, un o'r ddwy fenyw gyntaf i ymuno â Heddlu Morgannwg

yn 1948. Gellir llwytho'r daflen i lawr o wefan

[http://www.valeofglamorgan.gov.uk/enjoying/visit\\_the\\_vale/see\\_and\\_do/walking\\_holidays\\_in\\_the\\_vale/barri\\_womens\\_trail.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/enjoying/visit_the_vale/see_and_do/walking_holidays_in_the_vale/barri_womens_trail.aspx)

### Bangor

Trefnodd Leah Edge arddangosfa yn Amgueddfa ac Oriol Gelf Bangor fel rhan o'i chwr MA. Meddai 'Llynedd dechreuais ar MA yn Llenyddiaeth yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar a chefais fy nghyllido trwy brosiect Mynediad i Radd Meistr Prifysgol Bangor. Fel rhan o'r MA cwblheais brosiect ar gyfer Amgueddfa ac Oriol Gelf Bangor. Prif ffocws fy ymchwil oedd yr Arglwyddes Maria Reade, Dorothea Pughe-Jones a Dorothy Drage, menywod cryf ac ysbrydoledig, a anwyd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cyfrannodd y tair ohonynt nifer o wrthrychau i'r amgueddfa ac roeddent ill tair yn ddyfanwadol yn eu cymunedau.



### Merched Rhyfeddol Remarkable Women

Dorothy Drage - Dorothea Pughe Jones - Lady Maria Reade

Gwnaeth yr Arglwyddes Reade newidiadau arwyddocaol i gymuned Llanfaethlu. Comisiynodd bum Tŷ Coffi yn lle'r tai tafarn oedd yn hybu diota. Roedd yn aelod o grŵp o gasglwyr brwdfrydig, a oedd yn chwilio am wrthrychau i ddathlu bywyd a gwaith bob dydd.

Dorothea Pughe-Jones oedd yr olaf o linach Stad Ynysgain ger Cricieth. Yn unol â'i dymuniad cafodd casgliad arwyddocaol o ddodrefn a gwrthrychau yn dyddio o'r 17eg i'r 20fed ganrif o'i chartref yn Ynysgain Uchaf eu gadael yn ei hewyllys i'r amgueddfa.

Ysgrifennodd Dorothy Drage hunangofiant, yn manylu ar ei chyfraniad i sefydlu Sefydliad y Merched a'r *Associated Country Women of the World*. Gadawodd gasgliad cain o les o'r 15fed ganrif i'r amgueddfa. Er i'm prosiect yn yr amgueddfa ddod i ben fis Medi diwethaf teimlwn y dylid dathlu bywydau ysbrydoledig y menywod hyn ymhellach trwy greu arddangosfa o'u gwrthrychau. Bŵm yn ffodus i gael Tom Carpenter, perthynas i'r Arglwyddes Reade a pherchennog presennol Carreg-lwyd i agor yr arddangosfa. Bu'n llwyddiant mawr ac yn ddiweddglo gwych i'm cwrs MA.

Leah Edge

*Mae'r arddangosfa ymlaen tan 22<sup>ain</sup> Mehefin 2013, felly efallai y cewch gyfle i'w gweld.*

### **Sisterhood and After: an oral history of the Women's Liberation Movement**



Mae'r wefan hon yn rhan o brosiect wedi'i ariannu gan Leverhulme i greu archif hanes llafar o'r ffeministiaid a wnaeth wahaniaeth yn yr 1970au a'r 80au. Mae'n adeiladu ar ganlyniadau prosiect cynharach ar y Mudiad Rhyddid Menywod a wnaethpwyd gan y *Women's Library* yn 2008-9, ac a greodd archif o ganlyniadau chwe gweithdy gan dystion ar draws y DU, gan gynnwys un yng Nghaerdydd ym Mai 2009, y bu nifer o aelodau AMC yn cymryd rhan ynddo (gweler Cylchlythyr Gorffennaf 2009) [www.womensarchivewales.org/2009%20july%20newsletter%20english.pdf](http://www.womensarchivewales.org/2009%20july%20newsletter%20english.pdf) <<http://www.womensarchivewales.org/2009%20july%20newsletter%20english.pdf>>

Mae'r wefan yn rhan o dudalennau dysgu ardderchog y Llyfrgell Brydeinig, ac mae'n cynnwys crynodebau manwl, adysgrifau a clipiau sain o drigain cyfweiliad cynhwysfawr gyda menywod a fu'n rhan o MRhM, gan gynnwys Llywydd AMC Deirdre Beddoe, Jane Hutt, Jenny Lynn, Audrey Jones a Michele Ryan. Siaradodd pob un o'r rhain am eu profiadau o'r mudiad yng Nghymru (y pump ohonynt yn aelodau o AMC). Ymhlith y rhai eraill a gafodd eu cyfweld y mae Beatrix Campbell, Amrit Wilson, Jenni Murray, Michelene Wandor, Una Kroll a Susie Orbach. Ceir ambell gyfweiliad gyda dynion hefyd a gafodd eu cyfweld ar gyfer prosiect hanes llafar arall, '*Becoming Men: masculinities and the WLM, 1970-85*'. Mae cyswllt yn arwain o bob cofnod i gatalog y Llyfrgell Brydeinig, sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am gynnwys y cyfweiliadau. Gellir gweld a chlywed yr holl gyfweiliadau a'r adysgrifau yn y Llyfrgell Brydeinig, ac eithrio pan fo'r rhai a gafodd eu cyfweld wedi cyfyngu ar eu defnydd.

Mae deg thema ar y safle, yn cynnwys addysg (ar un o'r clipiau mae Deirdre Beddoe yn disgrifio trefnu Cynhadledd gyntaf Hanes Menywod yng Nghymru yn 1983); actifiaeth; cydraddoldeb a gwaith, a phwy oedden ni, pwy ydyn ni; sy'n ymgorffori clipiau sain ac adysgrifau o gyfweiliadau perthnasol i adlewyrchu agweddau gwahanol ar fudiad bywiog ac amrywiol a ledodd ledled y DU. Mae llinell amser yn cyflwyno'r defnydd o ongl wahanol ac mae'n cynnwys Jane Hutt yn siarad am Gynhadledd Genedlaethol Gymreig Rhyddid Menywod 1974 a gynhaliwyd yn Aberystwyth.

Mae cyfres o nodiadau i athrawon hefyd, gydag awgrymiadau am waith pellach, a chysylltiadau ag amrywiaeth eang o brosiectau hanes llafar eraill.

Fel aelod o Fwrdd Ymgynghorol y prosiect gwn mor anodd yw ceisio sicrhau bod cymhlethdod y mudiad yn cael y sylw dyladwy ac y mae nifer o fenywod eraill y gellid wrth reswm fod wedi'u cyfweld. Fodd bynnag, gobeithio bod y wefan yn cyfleu bod hwn yn fudiad o bwys y bu menywod ar draws y DU, nid yn unig ym mhrif ddinasoedd Lloegr, yn ymwneud ag ef.

[www.bl.uk/learning/histcitizen/sisterhood/index.html](http://www.bl.uk/learning/histcitizen/sisterhood/index.html)

Avril Rolph, Mai 2013.

## Archif Menywod Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Dinbych a'r Cyffiniau, 9fed Awst 2013


Yn dilyn ein cyfarfod poblogaidd a llwyddiannus iawn ar faes Eisteddfod y Fro'r llynedd, mae Archif Menywod Cymru wedi penderfynu mentro i'r maes unwaith eto eleni. Ac mae cyfarfod diddorol iawn ar y gweill gennym. Eleni bydd Dr Pamela Michael o Brifysgol Bangor yn rhoi sgwrs am 'Merched fel staff a chleifion yn Ysbyty Meddwl Dinbych' - pwnc dadleuol a chwbl amserol. Yna, cawn gyfle i rannu atgofion â rhai o'r staff a'r cleifion hynny. At hyn mae Archifdy Dinbych yn paratoi arddangosfa o ffotograffau a dogfennau'r ysbyty ar gyfer y sesiwn.



Cafodd Ysbyty Meddwl Dinbych ei agor yn 1848 oherwydd bod pryder nad oedd cleifion uniaith Gymraeg o ogledd Cymru, a oedd yn dioddef o afiechyd meddwl, yn cael y gofal angenrheidiol mewn sefydliadau cyffelyb yn Lloegr. Cafodd yr adeilad Gothig trawiadol ei gynllunio ar gyfer rhwng 60 a 200 o gleifion yn wreiddiol ond bu'n rhaid ehangu'r adeiladau ac yn ei anterth roedd yno 1,500 o gleifion a 1000 o staff. Mae'r ysbyty yn chwarae rhan ganolog yng ngweithiau rhai o'n llenorion mwyaf, yn eu plith Caradog Prichard a Kate Roberts. Cafodd ei gau yn yr 1990au hwyr ac mae'r adeilad yn wag ar hyn o bryd.

Mae'n amlwg fod hwn yn bwnc heriol a pherthnasol. Felly dewch yn llu i Babell y Cymdeithasau 1 ar faes yr Eisteddfod am 11 o'r gloch ar ddydd Gwener, 9fed Awst, 2013 i'n cefnogi ac i ddysgu mwy am y pwnc pwysig hwn.

**Cyhoeddwyd "Those Saturday Nights - the Story of Swansea's Tower Ballroom"** ar y 15fed o Fai. Prosiect Hanes Llafar Cymunedol wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ynghyd â Phrifysgol Fetropolitan Abertawe a Chanolfan Phoenix Townhill yw'r llyfr ac edrydd stori'r adeilad eiconig hwn rhwng 1937 a 1993, o'i ddyddiau fel sinema i'w uchafbwynt pan oedd yn neuadd ddawns ac yn ganolfan roc a rôl. Cafodd ei godi yng nghanol y stad dai cyngor fwyaf yng Nghymru. Roedd gan The Tower ei gynulleidfa unigryw ei hun gyda mynychwyr sinema, dawnswyr, jeifwyr a roc a rolwyr yn heidio yno o'r ardal leol. Gallai'r merched gerdded adre yn cario'u sgidiau stileto poenus gan nad oedd ganddyn nhw fawr o ffordd i fynd. Bu The Tower yn lloches i'r rhai a gollodd eu cartrefi yn y Blitz yn 1941, cyfarfu cyplau yno a phriodi, trodd Tedi Bois a Genod yn hipis, a golchodd y rocwyr eu gwalltiau seimllyd ffasiynol er mwyn gallu chwifio eu gwalltiau'n rhydd. Y gyfranwraig hynaf oedd Eva Jones, 101 mlwydd oed, a gofiai'r cae cyn adeiladu The Tower. Y Rheolwr gwreiddiol oedd Oscar Dennis, Rwsiad a oedd wedi dianc rhag y pogromau ac yr oedd yr awdurdodau wedi newid ei enw o Askair Baddennis. Denodd The Tower enwau mawr y byd cerddorol, Cherry Wainer ar yr organ roc, Cerddorfa Johnny Dankworth, Ivy Benson a'i cherddorfa i ferched yn unig, Frankie Vaughan, a Wee Willie Harris yn ei siwt binc lachar a'i wallt o'r un lliw o 6.5 Special ar deledu'r BBC. Aeth yr adeilad â'i ben iddo a llosgodd yn ulw yn 1993. Cyfrannodd 58 o bobl eu storïau a daeth 110 i'r ddawns *vintage* i gofio Neuadd Ddawns The Tower gyda cherddoriaeth gan Women in Jazz Allstars Swing Band. Mae'r llyfr yn ddwyieithog ac yn llawn lluniau. Mae'n costio £8.99 o siopau llyfrau.





## Dathlu Sheila Parry

Eleni bydd Archif Menywod Cymru yn dathlu safiad Sheila Parry (Davies gynt) dros hawliau menywod a chyfartaledd rhywiol drigain mlynedd yn ôl.

Ym mlwyddyn academaidd 1952-3, gwnaethpwyd ymgais i sefydlu pwyllgor cynrychiadol yn neuaddau preswyl y menywod yn y Coleg Normal, Bangor, tebyg i'r pwyllgor cynrychiadol a sefydlwyd yn neuaddau preswyl y dynion. Sheila Davies oedd arweinydd yr ymgyrch, a gafodd gefnogaeth Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Ar ddiwedd tymor y Nadolig 1952, rhybuddiwyd Sheila gan awdurdodau'r Coleg fod ei gweithgareddau yn peryglu ei lle yno. Roedd yn ei blwyddyn olaf o hyfforddiant ar y pryd, ac felly roedd ei dyfodol cyfan yn y fantol.

Pan ddychwelodd Sheila i'r Coleg yn y flwyddyn newydd, parhaodd i ymgyrchu dros bwyllgor cynrychiadol, gyda chefnogaeth yr Undeb o hyd, a bendith ei rhieni hefyd. Cadwodd y Coleg ei addewid. Ym Mawrth 1953 diarddelwyd Sheila, ac fe fu'n rhaid iddi fynd adre i'r Rhondda. Dyma ddechrau ymgyrchu ar ei rhan hi gan Undeb y Myfyrwyr, Undeb yr Athrawon, ac Aelodau Seneddol y Rhondda hefyd.

Gyda'u cefnogaeth, cafodd yr achos gryn sylw cyhoeddus, ac yn y diwedd fe gafodd Sheila Davies orffen ei hyfforddiant - ond yng Ngholeg Hyfforddi Caerdydd. Ni chafodd ddychwelyd i Fangor. Aeth ymlaen i ddysgu, a heddiw mae'n byw yn Chorley, Sir Gaerhirfryn.

Bydd Sheila yn annerch Cynhadledd Archif Menywod Cymru eleni, ar Hydref 12-3, yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful, pan fydd arddangosfa seiliedig ar ei harchif yn olrhain ei gwaith dros hawliau menywod ym 1952-3 i'w gweld.

## Facebook a Trydar

Os ydych chi'n defnyddio safleoedd gwe cymdeithasol yn rheolaidd neu hyd yn oed yn achlysurol, ceisiwch gael hyd i ni a dilynwch ni os gwelwch yn dda. Rydym yn ceisio cadw llygad ar yr hyn sydd yn digwydd yn gyfredol ar y cyfryngau yn ogystal â'n digwyddiadau ni'n hunain. Ar hyn o bryd mae gennym 48 o bobl yn ein hoffi ar Facebook a 67 o ddilynwyr ar Trydar. Does bosib na allwn ni wneud yn well na hyn; mae'n ffordd wych o ledaenu'r neges am AMC/WAW a chyrraedd menywod iau.

Os dewch chi ar draws unrhyw beth y credwch y dylem roi sylw iddo, cysylltwch â ni ar [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org) os gwelwch yn dda.

## Cynhadledd 12fed a 13eg Hydref 2013



Gair i'ch atgoffa y cynhelir ein Cynhadledd eleni yng Nghanolfan Soar, Merthyr Tudful ar benwythnos y 12<sup>fed</sup> a 13<sup>eg</sup> Hydref. Bu Canolfan Soar gynt yn un o gapeli mwyaf Cymru, ond ers 2011 mae'n theatr ac yn oriel gelf gymunedol. Dyma Ganolfan Iaith Merthyr hefyd ac mae siop lyfrau Cymraeg ardderchog yno.

Ymhlith y siaradwyr

sydd eisoes wedi cytuno i'n hannerch yn y Gynhadledd mae Angela John a Sheila Davies (gweler uchod). Fodd bynnag nid yw'r rhaglen wedi'i chwblhau eto.

Rydym yn dal i alw am bapurau; felly os hoffech chi gynnig papur cysylltwch â ni. Gwahoddir papurau ar unrhyw agwedd ar hanes menywod yng Nghymru ar gyfer y Gynhadledd. Mae croeso arbennig i gynigion gan ymchwilwyr newydd a myfyrwyr ôl-radd. Gall y cyflwyniadau fod rhwng 15 a 45 munud o hyd. Dylid anfon crynodebau 150-200 gair at [caroline\\_fairclough@yahoo.co.uk](mailto:caroline_fairclough@yahoo.co.uk) erbyn 28ain Mehefin, 2013.

Croesewir cyfraniad gan unrhyw un sy'n aelod i'r Cylchlythyr. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at: [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org) o.g.y.dd

**Dyddiad cyflwyno ar gyfer y rhifyn nesaf:  
Dydd Gwener 16<sup>eg</sup> Awst 2013**

Os hoffech chi gopi print bras o'r Cylchlythyr hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ffoniwch 01873 890540.

Mae'r Cylchlythyr hwn ar gael i aelodau ar-lein hefyd ar [www.womensarchivewales.org](http://www.womensarchivewales.org), yn yr Adran i Aelodau.

Golygwyd y rhifyn hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens.